PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD MAWRTH, 11 MAI 2021

Yn bresennol: Cynghorydd Patel(Cadeirydd)

Cynghorwyr Derbyshire, Owen Jones, Lancaster, Jackie Parry, Owen a/ac Sandrey

18 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Parkhill a Wong.

19 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Derbyshire fuddiant personol fel aelod o'r RSPB, Cadeirydd y bartneriaeth natur leol a'r fforwm mynediad lleol.

20 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 23/02/21 a 02/03/21 fel cofnod cywir.

21 : CAERDYDD UN BLANED - YMATEB I'R ARGYFWNG HINSAWDD.

Esboniodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cael cyfle i ystyried Adroddiad drafft y Cabinet, sef 'Caerdydd Un Blaned – Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd, Cynnydd Allweddol' a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Caerdydd Un Blaned.

Croesawodd y Cadeirydd yr Arweinydd, y Prif Weithredwr, y Cynghorydd Michael, y Cynghorydd Wild a swyddogion o'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Arweinydd, y Prif Weithredwr, y Cynghorydd Michael, y Cynghorydd Wild a Chyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd i wneud datganiadau lle amlinellon nhw ymrwymiad y Cyngor i fynd i'r afael â'r heriau hyn wrth symud ymlaen, y gwaith a oedd eisoes ar y gweill a sut mae holl bolisïau a strategaethau'r Cyngor yn cysylltu â'i gilydd. Nodwyd y byddai fersiwn derfynol o'r strategaeth a'r cynllun gweithredu yn cael eu hystyried yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau:

Gofynnodd yr Aelodau beth allai datblygwyr ei wneud i helpu i wella coridorau bywyd gwyllt. Esboniodd y swyddogion fod sgyrsiau helaeth yn digwydd gyda datblygwyr ar bob safle datblygu mawr, yn ogystal â gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac ecolegwyr mewnol. Bydd elfennau yng nghynlluniau datblygiadau mawr i gynorthwyo bioamrywiaeth fel mannau gwyrdd a nodweddion dŵr.

O ran plannu coed, nododd yr Aelodau'r cynlluniau ar gyfer cynyddu bargod coed y Ddinas ond nodon nhw hefyd fod coed yn cael eu cwympo ar draws y Ddinas.

Esboniodd yr Arweinydd fod 10,000 o goed wedi'u plannu ar draws y Ddinas dros y 4 blynedd diwethaf; mae'r Cyngor yn ehangu ei raglen dim torri gwair ac mae hyn yn ategu'r fioamrywiaeth gynyddol y mae'r Cyngor yn ceisio ei meithrin. Ychwanegodd y byddai coed yn cael eu colli mewn rhai achosion ond bod hyn yn cael ei liniaru drwy'r broses gynllunio. Dywedwyd wrth yr Aelodau hefyd fod rhai coed yn cael eu cwympo oherwydd prosesau naturiol fel gwywo a llifogydd.

Gofynnodd yr Aelodau am gostau ôl-ffitio cartrefi'r Cyngor. Dywedodd y swyddogion fod cyllideb benodol yn y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer tai'r Cyngor. Ar hyn o bryd mae'r ffocws ar gartrefi mewn blociau fflatiau isel yng Nghaerdydd. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Cyngor hefyd yn gweithio gyda Nest a Chymdeithasau Thai gan ganolbwyntio ar dlodi tanwydd a theuluoedd incwm isel. Roedd y Prif Weithredwr o'r farn y gallai fod lle i ddimensiwn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gyda sgyrsiau rhwng awdurdodau lleol i wneud rhywbeth ar raddfa fawr a gwella capasiti benthyca gan eu bod i gyd yn gweithio ar yr un agenda.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw ddata ar gael ar faint o goed a blannwyd sy'n aeddfedu. Esboniodd yr Arweinydd y byddai'n gofyn i'r gwasanaeth Parciau am y wybodaeth hon ond roedd disgwyl i'r coed a blannwyd fyw'n hir.

Nododd yr Aelodau fod llawer o gyfeiriadau at Gerbydau Trydan ond roeddent yn pryderu nad yw mannau gwefru cerbydau trydan yn eiddo preswylwyr yn ymddangos yn ddichonadwy mewn rhai strydoedd/wardiau. Cytunodd yr Arweinydd fod gan y dechnoleg beth ffordd i fynd o hyd a bod effaith ar swm y trydan y mae cartrefi'n ei ddefnyddio. Cafwyd trafodaeth ynghylch mannau gwefru, y seilwaith sydd ei angen a thariffau gwefru gwahanol. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod gwaith ar y gweill gyda Llywodraeth Cymru i dreialu gwahanol wefrwyr wrth iddynt gael eu cyflwyno ac mae Swyddogion yn edrych ar gynlluniau ar gyfer tai teras ac atebion amgen y maent yn gobeithio eu lansio yn ddiweddarach yn y flwyddyn tra'n bod yn ofalus gydag arian cyhoeddus. Nodwyd y gellid gosod mannau gwefru cyflym mewn lleoedd fel Campfeydd ond roedd yn bwysig peidio â bod ar y blaen i'r dechnoleg.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y ffaith bod sgwteri trydan yn boblogaidd ar hyn o bryd a dywedwyd wrthynt fod y rhain yn anghyfreithlon yn y DU y tu allan i gynlluniau peilot ac mae pryderon hefyd ynghylch agwedd ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Gofynnodd yr Aelodau ble mae'r Strategaeth Un Blaned yn sefyll ymhlith blaenoriaethau eraill y Cyngor fel Stryd y Castell a lonydd Beicio/Bysus. Esboniodd yr Arweinydd fod Stryd y Castell yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a bydd beth bynnag y cytunir arno yn gwella ansawdd aer y stryd honno.

Gan gyfeirio at y broses ymgynghori, gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw syniadau newydd wedi'u nodi nad oeddent yn y drafft gwreiddiol neu a oedd unrhyw beth yn y drafft gwreiddiol wedi'i ddad-flaenoriaethu o ganlyniad i'r ymgynghoriad. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Atodiad A yn manylu ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad a oedd yn gadarnhaol ar y cyfan. Ychwanegodd y swyddogion fod yr ymgynghoriad wedi tynnu sylw at newid mewn ymddygiad o fewn y Cyngor ac ymysg y cyhoedd; roedd y swyddogion o'r farn ei bod yn anodd gweithredu ar hyn gan fod angen iddo fod yn ysgogol.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd y fasnach Tacsis wedi bod yn cwyno am bris cerbydau trydan. Cytunodd yr aelod Cabinet fod hyn yn broblem ac esboniodd fod y Cyngor yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar gost Tacsis Trydan.

Roedd yr Aelodau o'r farn y dylid annog aelodau o'r cyhoedd i blannu coed yn eu gerddi ac ati er mwyn helpu i gynyddu bargod coed y Ddinas ac i wella bioamrywiaeth. Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at y Ddinas Parciau Cenedlaethol a chytunodd ei bod yn bwysig i bawb gymryd rhan a chymryd cyfrifoldeb am blannu coed.

Roedd yr Aelodau'n pryderu y gallai fod cynnydd yn swm y trydan a ddefnyddir gyda mwy o bobl yn gwefru cerbydau trydan. Cytunodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion fod hon yn her a dywedwyd wrth yr Aelodau fod uwchgynllunio yn elfen bwysig o hyn, gan ddefnyddio'r rhwydwaith gwres hefyd a lleihau'r ddibyniaeth ar drydan.

Cyfeiriodd yr Aelodau at Glybiau Ceir Ddinas a Rhannu Ceir, gan ofyn a ddylid annog trigolion i ddefnyddio'r rhain neu drafnidiaeth gyhoeddus. Esboniodd yr Aelod Cabinet ei fod wedi ymweld â Hackney sydd wedi dweud eu bod wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl sy'n berchen ar geir, yn enwedig ail geir ers cyflwyno'r cynllun Clwb Ceir Dinas. Gallai fod yn bosibl rhannu ceir mewn ffordd fwy cysylltiedig fel y cynllun Nextbike ond gyda cheir trydan; gan gynyddu'r defnydd o gronfeydd ceir trydan ac ati. Ychwanegodd nad oedd unrhyw ffordd amlwg ymlaen hyd yma o ran rhannu ceir.

PENDERFYNWYD – Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu unrhyw sylwadau, arsylwadau ac argymhellion a wnaed yn ystod y ffordd ymlaen.

22 : BUSNES Y PWYLLGOR

Cafodd Aelodau'r Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am adroddiad Gorchwyl a Gorffen Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad y Cyngor o'r enw, 'Model Asesu Effaith Craffu'.

Dywedodd y prif Swyddogion Craffu y byddai adroddiad drafft ar hyn yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor fis nesaf.

23 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim.

24 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y byddai cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd yn cael ei gynnal ar Ddydd Mawrth 1 Mehefin am 4:30pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.00 pm